

YR AELOD CABINET DROS ADNODDAU

DYDD IAU, 14 GORFFENAF 2022

PRESENNOL

Cynghorwyr (yn bersonol):

A. Lenny

Hefyd yn bresennol (yn bersonol):

A Thomas, Rheolwr Budd-daliadau Treth y Cyngor

S. Jones, Arweinydd Cymorth Tenantiaeth

J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democratiaidd

Swyddfa'r Aelod Y Cabinet – Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP

10.00 - 10.30 yb

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 15 MAWRTH 2022

PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2022, gan ei fod yn gywir.

3. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI

PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

4. TRETH Y CYNGOR - GOSTYNGIADAU YN ÔL DISGRESIWN

Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).

Roedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion a oedd yn talu'r dreth gyngor ac roedd y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad o dan baragraff 14 o Atodlen 12A i Ddeddf 1972 yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth yn yr adroddiad gan y gallai datgelu'r wybodaeth gael effaith anghymesur ar yr unigolion dan sylw ac na fyddai'n angenrheidiol at unrhyw un o'r dibenion a nodir yn Atodlen 2 i Ddeddf Diogelu Data 2018.

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad oedd yn manylu ar y ceisiadau oedd wedi dod i law am ostyngiadau yn ôl disgrisiwn o ran y Dreth Gyngor.

Nodwyd bod rheoliadau wedi eu cyflwyno, gan ddod i rym ym mis Ebrill 2004, a roddai bwerau disgrisiwn i Awdurdodau Lleol roi disgownt neu ostyngiad a benderfynwyd yn lleol o ran y Dreth Gyngor, a bod y rhain yn ychwanegol at y gostyngiadau statudol presennol.

PENDERFYNWYD:

- 4.1 Dileu'r swm o £5,527.08 sy'n ddyledus o ran y Dreth Gyngor mewn perthynas â'r cyfeirnod cais 60120372-X.
- 4.2 Dileu'r swm o £543.14 sy'n ddyledus o ran y Dreth Gyngor mewn perthynas â'r cyfeirnod cais 60384689-7.

5. CYFRIFON NA ELLIR EU HADFER - GORDALIADAU BUDD-DAL TAI

Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).

Roedd y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad y cyfeirir ato uchod yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu cynnwys yr adroddiad hwn gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn golygu y byddai gwybodaeth sensitif am yr unigolion dan sylw yn cael ei datgelu'n anghymesur a heb gyfiawnhad i'r cyhoedd.

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar gyfrifon gordaliad budd-dal tai y nodwyd nad oedd modd eu hadennill. Roedd yr holl weithdrefnau adennill wedi cael eu defnyddio, lle'r oedd hynny'n briodol, ac nid oedd dim tebygolrwydd y byddai modd cael y taliadau. Felly roedd yn cael ei ystyried yn briodol dileu'r cyfrifon hyn yn erbyn darpariaeth ddarbodus yr Awdurdod ar gyfer drwgddyledion o ran gordaliadau Budd-dal Tai.

PENDERFYNWYD bod y cyfrifon dyledus y manylwyd arnynt yn yr adroddiad yn cael eu dileu am nad oedd modd adennill y taliadau.

6. TRETHI ANNOMESTIG - CYMORTH CALEDI

Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).

Roedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am hanes ariannol diweddar y talwr ardrethi unigol a/neu wybodaeth bersonol amdano. Roedd y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad o dan baragraff 14 o Atodlen 12A i Ddeddf 1972 yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth yn yr adroddiad gan y byddai datgelu yn golygu y byddai gwybodaeth am y busnesau dan sylw yn cael ei datgelu heb gyfiawnhad, a fyddai'n achosi anfantais gystadleuol.

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried ceisiadau am Ryddhad Caledi o dan ddarpariaethau Adran 49 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 fel y'i diwygiwyd.

PENDERFYNWYD

5.1 Gwrthod cais cyfeirnod 80024124.

5.2 Caniatáu cais cyfeirnod 80026531.

7. DILEU DYLEDION CYN-DENANTIAID

Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).

Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys data personol am gyn-denantiaid y cyngor, ynghyd â manylion am eu hól-ddyledion rhent. Nid oedd cyfiawnhad dros gyhoeddi rhenti unigol a byddai hynny'n anfanteisiol i hawliau a rhyddid yr unigolion perthnasol. Felly roedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad oedd wedi ei lunio'n unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, a oedd yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran dyledion tenantiaid presennol a chyn-denantiaid ac yn gofyn am ddileu dyledion o fwy na £1,500.

Nododd yr Aelod Cabinet yr achosion a amlinellwyd yn yr adroddiad a rhoddodd ystyriaeth i'r adroddiadau unigol ar gyfer pob un o'r tenantiaid presennol a'r cyn-denantiaid a oedd yn manylu ar y rhesymau dros geisio dileu dyledion. Roedd y rhesymau yn cynnwys amgylchiadau personol.

PENDERFYNWYD dileu ôl-ddyledion y tenantiaid presennol a'r cyn-denantiaid, fel yr oeddid wedi manylu arnynt yn yr adroddiad, am nad oedd modd eu hadennill.

CHAIR

DATE